# YR ATODLENNI

## ATODLEN 8

Rheoliad 6(g)

Cyfyngiadau ar roi ar y farchnad ac allforio

**Rhoi cynhyrchion buchol ar y farchnad neu eu hallforio i drydydd gwledydd**

**1.**—(1) Mae'n drosedd i unrhyw berson roi ar y farchnad neu allforio (neu gynnig allforio) i drydydd gwledydd unrhyw gynhyrchion sydd ar ffurf neu sy'n ymgorffori unrhyw ddeunydd (ac eithrio llaeth) sy'n deillio o anifail buchol a anwyd neu a fagwyd o fewn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn is-baragraff (1) yn gymwys i grwyn anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd o fewn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 a ddefnyddiwyd i gynhyrchu lledr yn unol ag Erthygl 1(3) o Benderfyniad y Comisiwn 2007/411/EC(**1**).

(3) At ddibenion y paragraff hwn, bernir bod anifail buchol wedi ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 oni bai bod ei basbort gwartheg yn dangos naill ai—

(a) ei fod wedi ei eni yn y Deyrnas Unedig ar 1 Awst 1996 neu ar ôl hynny; neu

(b) y daeth i'r Deyrnas Unedig am y tro cyntaf ar 1 Awst 1996 neu ar ôl hynny.

**Rhoi anifeiliaid buchol ar y farchnad neu eu hallforio i drydydd gwledydd**

**2.**—(1) Mae'n drosedd i unrhyw berson roi ar y farchnad neu allforio (neu gynnig allforio) i drydydd gwledydd anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn is-baragraff (1) yn gymwys i roi anifeiliaid o'r fath ar y farchnad i'w gwerthu neu i'w cyflenwi i unrhyw berson yn y Deyrnas Unedig.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, bernir bod anifail buchol wedi ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 oni bai bod ei basbort gwartheg yn dangos naill ai—

(a) ei fod wedi ei eni yn y Deyrnas Unedig ar 1 Awst 1996 neu ar ôl hynny; neu

(b) y daeth i'r Deyrnas Unedig am y tro cyntaf ar 1 Awst 1996 neu ar ôl hynny.

(**1**) OJ Rhif L 155, 15.6.2007, t. 74.